# Archifau Sir Gâr
# **Polisi Ffotograffiaeth Ddigidol**
# 2022 - 2026

Os na allwn ddarparu llungopi o ffotograff arbennig (gweler ein polisi llungopïo os gwelwch yn dda), yna fe allwch ddefnyddio eich camera eich hun i dynnu llun yr eitem yn yr ystafell chwilio, ond dim ond lle nad yw hyn yn achosi risg ddiangen i'r eitem.

Codir tâl am drwydded ffotograffiaeth (gweler ein rhestr o daliadau) ac mae'r taliad hwn yn helpu i gadw ein casgliad yn y tymor hir. Os ydych yn dymuno defnyddio eich camera eich hun dywedwch wrth aelod o'r staff ymlaen llaw, os gwelwch yn dda.

**DS** cyn tynnu llun unrhyw eitem rhaid i chwi (i) brynu eich trwydded ac (ii) arwyddo'r ffurflen datganiad hawlfraint.

**Nodwch, os gwelwch yn dda, y gellir cymryd ffotograffau o dan yr amodau a ganlyn:**

I. Bydd y ffotograffau ar gyfer astudiaeth breifat yn unig.

II. Rhaid i ddefnyddwyr arwyddo ffurflen datganiad hawlfraint

III. Os bydd angen ffotograffau ar gyfer arddangosfa, i'w hatgynhyrchu neu i'w cyhoeddi mewn print neu ar wefan, yna bydd raid cael caniatâd perchennog y ddogfen a pherchennog yr hawlfraint. Bydd staff yn rhoddi cyngor ym mhob achos. Mae ffi ar wahân ar gyfer defnydd masnachol.

IV. Er mwyn diogelu'r dogfennau rhag difrod, rhaid i ddarllenwyr dalu sylw i'r rheolau a ganlyn:

- Ni chaniateir defnyddio ffotograffiaeth fflach, llifoleuadau nac ambaréls yn yr ystafell chwilio.
- Rhaid i ddogfennau naill ai orwedd yn fflat ar fwrdd neu, gyda chyfrol, ei gosod ar orffwysfa lyfrau o'r maint cywir. Ni cheir rhoddi dogfennau ar y llawr.
- Gofynnir i ddefnyddwyr beidio â sefyll ar gadeiriau a byrddau i gymryd ffotograffau
- Peidiwch â thynnu dogfennau sydd wedi'u hamgáu na ffotograffau allan o'u hamlenni.
- Ni chaniateir y defnydd o sganwyr.

**Adolygu**

Ysgrifennwyd y polisi hwn ym mis Hydref 2022. Bydd yn cael ei adolygu yn 2026, neu'n gynharach os bydd angen gwneud hynny.